# Nos Iau, 13 Mawrth 2025 – 7.30yh
## Festri Salem, Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 13 Mawrth 2025** am 7.30, Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datganiad o fuddiant
3. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
4. Cyflwyniad gan Severn Wye: Cymunedau YnNi
5. Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
6. Gohebiaeth
7. Adroddiad cyllidol
8. Materion cynllunio
9. Materion eraill

Minutes of a meeting held on **Thursday 13 March 2025** at 7.30 at Salem Vestry, Penmachno

1. Welcome and apologies for absence
2. Declaration of interest
3. Confirmation of the minutes from the previous meeting
4. A presentation by Severn Wye: Energised Communities
5. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
6. Correspondence
7. Financial report
8. Planning applications
9. Any other business

**Presennol**:
Bethan Corrigan
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Is Gadeirydd)
Eryl Owain (Cadeirydd)
Geraint Thomas
Owen Davis
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

**Present:**
Bethan Corrigan
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Deputy Chairperson)
Eryl Owain (Chairperson)
Geraint Thomas
Owen Davis
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (County Councillor)

**Ymddiheuriadau**:
Claire Roberts
Eifion Davies

**Apologies:**
Claire Roberts
Eifion Davies

Agorwyd y cyfarfod gan y cadeirydd.

The meeting was opened by the chairperson.

### Datganiad o fuddiant
Nid oedd unrhyw ddatganiadau

### Declaration of interest
There were no declarations

## Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **09 Ionawr 2025** fel rhai cywir, Dylan Davies yn cynnig a Wil Edwards yn eilio.

## Materion yn codi:

**Toiled Cyhoeddus:** Adroddwyd bod tri chwmni wedi cael cais am bris. Penderfynwyd derbyn pris Future Flooring am lloriau finyl 2.5mm

**Llwybr Cyhoeddus 55 – Y Waen:** Adroddwyd bod Cartrefi Conwy wedi torri'r gwrych.

**Diffibrilwyr:** Adroddwyd bod y clerc yn disgwyl clywed canlyniad cais am grant yn fuan.

**SP Energy:** Nodwyd bod y cyngor cymuned wedi cymryd rôl llawer mwy na'r disgwyl wrth gysylltu â rhanddeiliaid. Diolchwyd i'r clerc a oedd wedi bod yn gweithio dan bwysau sylweddol. Adroddwyd bod SP Energy wedi penodi contractwyr newydd.

Penderfynwyd gwneud trefniant newydd ar gyfer cysylltu ag SP Energy cyn i'r prosiect ailddechrau.

Penderfynwyd cysylltu â SP Energy a gofyn iddynt dalu'r clerc am y 75 awr o oramser di-dâl y mae wedi'i weithio yn ystod y chwe mis diwethaf.

**Cyfarwyddwr Angladdau:** Adroddwyd bod yr anfoneb wedi cael ei thalu.

**To Stabl**: Penderfynwyd cysylltu â'r cyngor sir.

**Archwilio Cymru:** Adroddwyd bod llythyr o gwyn wedi'i ysgrifennu ac y bydd yn cael ei anfon at Archwilio Cymru, Comisiynydd y Gymraeg ac Aelod o'r Senedd.

## Gohebiaeth

Adroddwyd bod y clerc wedi derbyn mwy na 600 o negeseuon e-bost ers mis Ionawr yn ogystal â galwadau ffôn a negeseuon trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

## Adroddiad Cyllidol

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn.

## Materion Cynllunio

NP4/29/527 Codi un tŷ marchnad agored.

## Confirmation of the minutes

The minutes of the **09 January 2025** meeting were accepted as a true record, proposed by Dylan Davies and seconded by Wil Edwards.

## Matters arising:

**Public Toilet:** It was reported that three companies had been asked for a quote. It was decided to accept Future Flooring's quote for 2.5mm vinyl flooring.

**Footpath 55 – Y Waen:** It was reported that Cartrefi Conwy had cut the hedge.

**Defibrillators:** It was reported that the clerk was expecting to hear the result of a grant application soon.

**SP Energy:** It was noted that the community council had taken a much greater role than expected in liaising with stakeholders. Thanks were expressed to the clerk who had been working under significant pressure. It was reported that SP Energy had appointed new contractors.

It was decided to make new arrangement for liaising with SP Energy before the project restarts.

It was decided to contact SP Energy and ask them to pay the clerk for the 75 hours of unpaid overtime he has worked in the last six months.

**Funeral Director:** It was reported that the invoice had been paid.

**Stable Roof:** It was decided to contact the county council.

**Audit Wales:** It was reported that a letter of complaint had been written and will be sent to Audit Wales, the Welsh Language Commissioner and the Senedd Member.

## Correspondence

It was reported that the clerk had received more than 600 emails since January as well as telephone calls and messages through social media.

## Financial Report

The Clerk provided a list of all financial transactions since the last meeting for analysis. It was agreed that everything was in order.

## Planning

NP4/29/527 Construction of one open market dwelling.

Nodwyd nad yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gallu gofyn am gytundeb adran 106 oherwydd y polisi cynllunio.

It was noted that Eryri National Park Authority are unable to require a section 106 agreement due to planning policy.

## Materion eraill

## Other matters

**Hafod Rhedwydd:** Adroddwyd bod contractwyr CNC wedi bod yn gyrru cerbydau mawr dros y Migneint. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.

**Hafod Rhedwydd:** It was reported that NRW contractors had been driving large vehicles over the Migneint. It was decided to contact the County Council.

**Blaen-y-cwm:** Penderfynwyd adrodd problem gyda phont droed i'r Cyngor Sir.

**Blaen-y-cwm:** It was decided to report a problem with a footbridge to the County Council.

**Goryrru:** Penderfynwyd adrodd i'r Cyngor Sir am broblem gyrwyr goryrru ar 'Penmachno To Cwm Penmachno Road'

**Speeding:** It was decided to report to the County Council the problem of speeding drivers on 'Penmachno To Cwm Penmachno Road'.

**Cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Iau 15 Mai 2025, 7.30 yn Hwb Penmachno.

**Next meeting**

The next meeting of the Council will be held on Thursday 15 May 2025, 7.30 at Hwb Penmachno.